
# Cymeriadau Difyr



| | |
|---|---|
| Llyfr: | **Alun Un (1)** |
| Adnoddau: | • Numicon<br>• Cerrig / peli tennis gyda'r rhif 1 wedi'u peintio arnyn nhw. |
| Camau: | Cam 1 - Darllenwch a thrafodwch y llyfr 'Cymeriadau Difyr: Alun Un'.<br><br>Cam 2 - Ewch tu allan a ffurfio 1 gyda'ch gilydd yn yr awyr.<br>• ffurfiwch 1 mewn ewyn eillio<br>• ffurfiwch 1 ar bapur (gyda phensil / paent / torri a gludo darnau papur lliw i lenwi amlinelliad siâp rhif 1)<br>• ffurfiwch 1 gyda sialc tu allan.<br><br>Cam 3 - Yn y stori, mae pawb yn casglu mwyar duon. Defnyddiwch hyn fel sbardun i fynd o gwmpas y dosbarth yn casglu cerrig/peli tennis.<br><br>Cam 4 - Ewch o gwmpas yr ardal allanol a chasglwch y cerrig/peli tennis sy'n dangos y rhif 1. Casglwch y rhain a rhowch nhw mewn bwced/bocs. Cyfrifwch sawl pêl/carreg sydd gyda chi yn y bocs/bwced. |
| Cwestiynu: | Sawl carreg/pêl sydd gyda chi i gyd?<br>Faint sydd angen eu tynnu allan i adael 1 bêl / 1 garreg? |
| Beth nesaf? | Ewch o gwmpas yr ysgol. Ydych chi'n gweld 1 o'ch cwmpas? |

